



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## ZoneArt Networks

Mae busnes cychwyn arloesol wedi datblygu'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel "y datrysiad wi-fi geo-leoli mwyaf cyflym a chywir yn y byd", gyda chymorth Llywodraeth Cymru.



Cyd-sylfaenwyr ZoneArt Networks, Dr Peter Kenington a Nick Shaw, gyda'u cynnyrch arloesol, "Follow Spot"

Cafodd ZoneArt Networks sydd wedi eu lleoli yn Devauden eu sefydlu yn 2013 gan yr entrepreneuriaid Dr Peter Kenington a Nick Shaw, a welodd fwch yn y farchnad ar gyfer defnydd newydd o dechnoleg Wi-Fi.

Roedd y ddau'n argyhoeddedig y gallen nhw wella technoleg geo-leoli bresennol drwy ddefnyddio Wi-Fi i leoli pobl neu wrthrychau trwy declynnau a ddelir â llaw. Roedd sefydlu eu cwmni mewn pentref bach Cymreig geir Caerllion yn fodd iddynt gael mynediad i gymorth gan Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu eu cynnyrch newydd.

Defnyddiodd ZoneArt Networks y cymorth hwnnw i ddatblygu "Follow Spot", system geo-leoli sydd â nifer o raglenni. Gellir ei defnyddio mewn manwerthu, er enghraifft, i olrhain beth yn union y mae cwsmer yn chwilio amdano mewn siop, neu mewn gofal iechyd, neu i olrhain cleifion, staff ac asedau wrth iddynt symud o gwmpas ysbyty. Er bod systemau geo-leoli ar y farchnad, mae ZoneArt yn unigryw oherwydd ei fod yn gweithredu o un pwynt mynediad, yn hytrach na nifer ohonynt; mae'n gywir o

### Cyflawniadau allweddol:

- Datblygu technoleg geo-leoli Wi-Fi fwyaf cywir y byd
- Cydweithio'n arbennig gyda chyflenwyr a gweithgynhyrchwyr yng Nghymru
- Creu dwy swydd uwch beiriannydd
- Ffeilio 12 patent yn y DU a 7 yn rhyngwladol

fewn degau o centimetrau, yn hytrach na sawl metr; ac mae'n darparu data geo-leoli amser go iawn, yn hytrach nag oedi o nifer o eiliadau. Hefyd, nid oes rhaid cael defnyddiwr i lawrlwytho ap.

Darparodd tîm arloesi Llywodraeth Cymru gyngor a chymorth ar bob cam o ddatblygiad y dechnoleg, gan hyd yn oed gyflwyno'r cwmni i ddarparwyr a gweithgynhyrchwyr trydydd parti yng Nghymru a oedd yn gallu helpu i gynhyrchu'r cynnyrch gorffenedig.

Ymhlith enghreifftiau i'r gefnogaeth hon mae astudiaeth ymarferoldeb technegol a masnachol, a gyfrannodd at asesiad marchnad cychwynol ac at y gwaith 'di-berygl' technoleg. Galluogodd y mewnweddiad hwn i'r cwmni asesu ymarferoldeb eu cynnyrch newydd cyn gwneud cais am grant ymchwil ddiwydiannol, a gyfrannodd at y gost o ddatblygu prototeip ymarferol.

Galluogodd grant gyfnod ymelwa pellach i ZoneArt Networks gynhyrchu'r cynnyrch gorffenedig, ac aeth y cwmni ymlaen i ffeilio 12 o batentau yn y DU gydag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Ers hynny, mae ZoneArt Networks wedi datblygu datrysiad seibr-ddiogelwch newydd o'r enw ZoneOut, hefyd gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu perchnogion rhwydwaith Wi-Fi i wrthod mynediad i rwydwaith i ddefnyddwyr ar sail eu lleoliad corfforol.

Mae Dr Kenington a Mr Shaw yn cydnabod y cymorth y maent wedi ei gael gan Lywodraeth Cymru i alluogi i'r prosiect ddigwydd a chynyddu cyfradd ei ddatblygiad – gan helpu i'r busnes barhau ar y blaen i'w gystadleuwyr.

Ym mis Medi 2017, gosodwyd pwynt mynediad Wi-Fi ZoneArt Networks yn Eglwys St James yn Devauden, lle denodd arddangosiadau gwsmeriaid posibl o ledled y byd.

Mae cyllid arloesi yn cefnogi prif amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn benodol, creu Cymru fwy llewyrchus. Er nad yw effaith economaidd iawn y dechnoleg hon wedi ei gweld eto, mae'r cwmni eisoes wedi cyflogi dau uwch beiriannydd i weithio o fewn y busnes. Yn ystod y 12 mis nesaf, mae'r cwmni'n cynllunio i recriwtio pobl dechnegol fedrus iawn a thargedu nifer o farchnadoedd fertigol yn y DU, Ewrop a'r Unol Daleithiau. Ei fwriad yw dechrau allforio ei gynnyrch ledled y byd.

"Nid cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn unig sydd wedi bod o gymorth nawr, ond hefyd y bobl yr ydym wedi gweithio gyda nhw yn Llywodraeth Cymru. Maent yn broffesiynol, yn gall ac yn ymarferol, maent wedi ein helpu trwy'r amrywiol gamau o geisiadau grant ac wedi darparu cyflwyniadau defnyddiol i adeiladwyr trydydd parti yn ogystal â chwsmeriaid. Heb y cymorth hwn, mae'n annhebygol y byddem wedi gallu cyflawni'r ymchwil a'r datblygiad oedd eu hangen." **Nick Shaw, cyd-sylfaenydd a Phrif Weithredwr ZoneArt Networks Cyf.**

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000  
innovation@llyw.cymru | [businesswales.gov.wales/cy/innovation](https://businesswales.gov.wales/cy/innovation)



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**